

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**05/03/2008**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig**  
**Questions to the Minister for Rural Affairs**

**Inshore Fisheries**

**Q10 Helen Mary Jones:** What is the Welsh Assembly Government doing to support inshore fisheries in west Wales? OAQ(3)0263(RAF)

**The Minister for Rural Affairs (Elin Jones):** My main support for the fishermen of this area is through the local Fishermen's Association, which was established with European and Welsh Assembly Government funding. We continue to work closely with the group, other associations and all relevant stakeholders on the development of a Welsh fisheries policy.

**Farmers' Markets**

**Q11 Peter Black:** What is the Minister doing to support farmers' markets in Wales? OAQ(3)0235(RAF)

**Elin Jones:** The 'One Wales' commitment to offer support to farmers' markets will be taken forward under the new rural development plan's supply chain efficiencies scheme.

**Priorities for Animal Welfare**

**Q12 Lorraine Barrett:** Will the Minister outline her future policy priorities for animal welfare in Wales? OAQ(3)0224(RAF)

**Elin Jones:** The Welsh Assembly Government's priorities for companion animal welfare have already been published and are available on our website. We are continuing to work with individuals and

**Pysgodfeydd y Glannau**

**C10 Helen Mary Jones:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ei wneud i gefnogi pysgodfeydd y glannau yng ngorllewin Cymru? OAQ(3)0263(RAF)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Yr wyf yn gallu cynorthwyo'r pysgotwyr yn yr ardal hon yn bennaf drwy'r Gymdeithas Pysgotwyr leol a sefydlwyd gydag arian o Ewrop a chan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Er mwyn datblygu polisi pysgodfeydd Cymru, yr ydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r grŵp hwn, cymdeithasau eraill a'r holl randdeiliaid perthnasol.

**Marchnadoedd Ffermwyr**

**C11 Peter Black:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i gefnogi marchnadoedd ffermwyr yng Nghymru? OAQ(3)0235(RAF)

**Elin Jones:** Bydd yr ymrwymiad yn 'Cymru'n Un' i gynnig cymorth i farchnadoedd ffermwyr yn cael ei gyflawni o dan gynllun effeithlonrwydd y cynllun datblygu gwledig, y gadwyn gyflenwi.

**Blaenoriaethau ar gyfer Lles Anifeiliaid**

**C12 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau polisi i'r dyfodol ar gyfer lles anifeiliaid yng Nghymru? OAQ(3)0224(RAF)

**Elin Jones:** Cyhoeddwyd blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer lles anifeiliaid anwes eisoes ac maent ar gael ar ein gwefan. Yr ydym yn parhau i weithio gydag unigolion a sefydliadau ar yr angen am

organisations on the requirement for animal welfare transport certificates and the development of the proposed broiler directive by 2010.

dystysgrifau cludo lles anifeiliaid ac i ddatblygu'r gyfarwyddeb brwyliaid arfaethedig erbyn 2010.

### Disease in Livestock

### Clefydau Da Byw

**Q13 Angela Burns:** Will the Minister provide an update on controlling the spread of disease in livestock in Wales? OAQ(3)0261(RAF)

**C13 Angela Burns:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am reoli lledaeniad clefydau mewn da byw yng Nghymru? OAQ(3)0261(RAF)

**Elin Jones:** We are working closely with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, other devolved administrations and stakeholders to ensure that animal diseases are dealt with effectively and that specific Welsh issues are taken fully into account.

**Elin Jones:** Yr ydym yn gweithio'n agos gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, gweinyddiaethau datganoledig eraill a rhanddeiliaid i sicrhau yr ymdrinnir â chlefydau anifeiliaid yn effeithiol ac yr ystyrir materion sy'n effeithio'n benodol ar Gymru yn llawn.

### Rural Communities

### Cymunedau Gwledig

**Q14 Huw Lewis:** What is the Welsh Assembly Government doing to improve the economic wellbeing of rural communities? OAQ(3)0258(RAF)

**C14 Huw Lewis:** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i wella lles economaidd cymunedau gwledig? OAQ(3)0258(RAF)

**Elin Jones:** The economic wellbeing of rural communities cannot be considered in isolation from that of the rest of the Welsh economy. Our strategic commitments will be delivered through 'One Wales' and the spatial plan, and the Assembly Government and its partners will continue to support the economy of rural areas through a range of programmes, including the rural development plan.

**Elin Jones:** Ni ellir ystyried lles economi cymunedau gwledig a lles economi gweddill Cymru fel materion ar wahân. Caiff ein hymrwymiaidau strategol eu cyflawni drwy 'Cymru'n Un' a'r cynllun gofodol, a bydd Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn parhau i gynorthwyo economi ardaloedd gwledig drwy amrywiaeth o raglenni, gan gynnwys y cynllun datblygu gwledig.

### Tir Gofal

### Tir Gofal

**Q15 Mick Bates:** Will the Minister make a statement on the future of Tir Gofal? OAQ(3)0247(RAF)

**C15 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol Tir Gofal? OAQ(3)0247(RAF)

**Elin Jones:** My aim is to continue the expansion of Tir Gofal under the rural development plan 2007-2013 through processing the 1,400 applications received in the last application round. In the longer term, decisions will depend on the outcome of the axis 2 land management review.

**Elin Jones:** Yr wyf yn awyddus i barhau i ymestyn Tir Gofal o dan gynllun datblygu gwledig 2007-2013 drwy brosesu'r 1,400 o geisiadau a dderbyniwyd yn y rownd ymgeisio ddiwethaf. Yn yr hirdymor, bydd y penderfyniadau'n dibynnu ar ganlyniadau adolygiad rheoli tir echel 2.